

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Llywodraeth Cymru

18 Rhagfyr 2017

Annwyl Mark,

Ailfeddwl am fwyd yng Nghymru – Caffael y sector cyhoeddus

Yn ddiweddar, mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig wedi gwneud rhywfaint o waith ar ei ymchwiliad i ailfeddwl am fwyd yng Nghymru. Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, mae'r Pwyllgor wedi treulio peth amser yn ystyried caffael bwyd a diod yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a'r rôl y gall hyn ei chwarae yn y maes polisi bwyd a diod ehangach.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (yn cynrychioli CLILC); Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru; Hybu Cig Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru. Clywodd y Pwyllgor hefyd gan yr Athro Roberto Sonnino, Athro Polisi a Chynllunio Amgylcheddol, Prifysgol Caerdydd

Y cylch gorchwyl ar gyfer ein gwaith oedd ymchwilio i:

- Rôl caffael y sector gyhoeddus i gefnogi cynnyrch lleol, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael gafael ar fwyd iach, lleol ac er mwyn darparu marchnadoedd i gynhyrchwyr.
- Rôl caffael bwyd cynaliadwy yn y sector cyhoeddus o fewn polisiau cyhoeddus ehangach, fel iechyd; ac
- Effaith bosibl Brexit ar drefniadau caffael yn y dyfodol.



Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y dylwn ysgrifennu atoch am faterion sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) yng Nghymru.

Gwariant ar gaffael bwyd yn y sector cyhoeddus

Comisiynwyd yr adroddiad [Prynu Bwyd y Sector Cyhoeddus yng Nghymru 2013](#) gan Lywodraeth Cymru. Roedd yn amcangyfrif bod y sector cyhoeddus yn gwario £74.4 miliwn ar fwyd a diod, gydag eitemau a brynir gan gwmnïau o Gymru, gan gynnwys cynhyrchwyr a dosbarthwyr, yn cyfrif am 63 y cant o'r gwariant hwnnw (sef £47.2 miliwn).

Clywodd y Pwyllgor nad oes ffynhonnell gyhoeddus ar gyfer cael ffigurau cywir a chyfoes ar gaffael bwyd yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei diweddarau a'i chyhoeddi'n rheolaidd.

Beth yw eich barn ynghylch a ddylid cyhoeddi'r wybodaeth hon yn rheolaidd?
Beth fyddai manteision ac anfanteision sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd?

Caffael bwyd ffres, maethlon, a gynhyrchir yn lleol

Mae cynyddu'r symiau o fwyd Cymreig neu fwyd lleol a gaiff ei gaffael gan y sector cyhoeddus yn rhoi cyfle i gefnogi cynhyrchwyr bwyd lleol. Ar ben hynny, mae'n darparu bwyd iach a maethlon i'r cyhoedd (e.e. cleifion ysbyty, plant ysgol).

Adolygodd Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru strategaeth a chynllun gweithredu bwyd a diod Llywodraeth Cymru yn 2016. Lluniodd yr Athro Terry Marsden a'r Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd yr adroddiad: **Polisi Bwyd fel Polisi Cyhoeddus (2016)** (Saesneg yn unig). Mae argymhelliad cyntaf yr adroddiad yn ymwneud â chaffael:

Placing sustainable diets at the heart of food and nutritional policy through adopting successful public health interventions such as Food



for Life and bolstering public sector food procurement and catering provision.

Sut y mae fframweithiau caffael bwyd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cyd-fynd â mentrau fel Bwyd am Oes?

Clywodd y Pwyllgor nad yw rheolau caffael yr Undeb Ewropeaidd yn atal contractau rhag pennu bwyd sy'n ffres, yn fforddiadwy ac yn faethlon; nac yn atal prynwyr rhag ymgysylltu â chyflenwyr lleol i ddatblygu dulliau gweithredu cynaliadwy a chydweithredol o ran bwyd. Dywedwyd wrthym y dylai Cymru chwarae rhan flaenllaw i annog cyrff cyhoeddus i brynu cynnyrch lleol neu gynnyrch Cymreig. Yn ychwanegol at y manteision economaidd amlwg, awgrymwyd y byddai manteision i hyn o ran lleihau milltiroedd bwyd, creu swyddi a sicrhau bod gwerth a ychwanegir yn ddiweddarach yn y gadwyn fwyd yn cael ei gadw yng Nghymru.

Pwysleisiwyd wrth y Pwyllgor hefyd bwysigrwydd sicrhau bod gwerth, yn hytrach na phris, yn ffactor mwy amlwg mewn penderfyniadau caffael. Awgrymwyd y dylai penderfyniadau roi pwysoliad o 60 y cant o leiaf ar ansawdd, gyda phwysoliad ar bris heb fod yn fwy na 40 y cant. Gallai defnyddio dangosyddion ansawdd a sicrwydd hefyd gefnogi'r dasg o ddynodi ansawdd y cynnyrch. Cydnabuwyd, fodd bynnag, y gallai pwyslais ar fwyd lleol, iach, gynyddu costau, yn enwedig yn y tymor byr.

Clywodd y Pwyllgor bryderon hefyd am faint o wastraff bwyd sydd yn y sector cyhoeddus.

Sut y mae fframweithiau caffael bwyd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cefnogi caffael bwyd iach, a gynhyrchir yn lleol?

Sut y mae fframweithiau caffael bwyd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn hyrwyddo cynaliadwyedd (e.e. milltiroedd bwyd); ffresni (e.e. pa mor hir a gymerodd y llwybr o'r cae i'r plât); a tharddiad (e.e. statws gwarchoddedig)?

Sut y mae fframweithiau caffael bwyd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn sicrhau bod gwastraff bwyd yn cael ei leihau? Sut y caiff gwastraff bwyd ei gofnodi a'i fonitro, a sut y mae awdurdodau lleol yn adrodd yn ei gylch?



Cynllun gweithredu bwyd a diod Llywodraeth Cymru.

Mae Cynllun Gweithredu bwyd a diod Llywodraeth Cymru, Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014–2020, yn dweud y bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) yn cael ei fesur yn erbyn cynyddu:

- y cyfleoedd i fusnesau bwyd gyflenwi'r sector cyhoeddus;
- nifer y cyflenwyr a maint/amrywiaeth y cynnyrch a gyflenwir;
- y manteision i gynhyrchwyr bwyd sy'n targedu'r farchnad hon.

Mae un o gamau'r cynllun gweithredu (cam 30) yn ymwneud â chaffael cyhoeddus:

Sicrhau bod modd datblygu cyfleoedd ym marchnad y sector cyhoeddus i'r diwydiant bwyd ac, yn benodol, i fusnesau bwyd bach a chanolig a microfusnesau bwyd.

Roedd awgrym hefyd y byddai strategaeth fwyd gyffredinol yn ddefnyddiol i sicrhau cydbwysedd rhwng gofynion polisi cystadleuol fel strategaethau twf yn y farchnad, cynaliadwyedd ac iechyd. Pwysleisiwyd pwysigrwydd ewyllys a pharhad gwleidyddol. Ymhellach, y mae angen arweinyddiaeth i symud yn raddol at systemau bwyd mwy cynaliadwy a gwell maeth iechyd y cyhoedd.

Ydych chi'n credu y byddai unrhyw fuddion i'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol o gael polisi bwyd cyffredinol?

Pa asesiad a wnaed o'r cynnydd a wnaed yn ôl cam gweithredu 30?

Ydych chi'n meddwl bod digon o bwyslais ar gaffael bwyd cyhoeddus yn y ddogfen Tuag at Dwf Cynaliadwy?

Beth fyddai manteision neu anfanteision cael strategaeth fwyd gyffredinol o ran caffael bwyd cyhoeddus?

Fframweithiau bwyd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol



Clywsom gan CLILC bod rhai pryderon ynghylch priodoldeb caffael bwyd a diod drwy fframwaith cenedlaethol. Dywedasant wrthym:

There are however now concerns among officers that the issues experienced with the food category reflect some difficult truths; that food does not suit aggregation and needs to be an exception to the 'buying once for Wales' philosophy.

Clywodd y Pwyllgor fod rhai awdurdodau lleol wedi penderfynu peidio â chymryd rhan mewn fframweithiau cenedlaethol ar gyfer caffael bwyd ac y byddant yn gwneud eu trefniadau eu hunain.

Fframwaith 1: Mae Cynhyrchion Bwyd a Diodydd Ffres (NPS-Food-0068-16) wedi bod ar waith ers mis Awst 2017. Faint o sefydliadau sydd wedi nodi y byddant yn defnyddio'r fframwaith hwn? Faint o aelod-sefydliadau sydd wedi dewis peidio â'i ddefnyddio?

Beth yw eich barn ar y pryderon a fynegwyd gan awdurdodau lleol ynghylch defnyddio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer caffael bwyd? Pa gamau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gan awdurdodau lleol ynghylch y fframwaith?

Beth yw eich rhagamcanion ar gyfer gwariant o dan Fframwaith 1: Cynhyrchion Bwyd a Diodydd Ffres am y ddwy flynedd nesaf? Sut y mae'r rhagamcanion hyn wedi ystyried y gwariant yn ystod 2016-17 o dan y fframweithiau bwyd presennol?

Ydych chi'n credu bod Fframwaith 1: Cynhyrchion Bwyd a Diodydd Ffres yn darparu digon o hyblygrwydd i sefydliadau gaffael bwyd iach a gynhyrchir yn lleol?

Strwythurau caffael eraill

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gallai awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd, yn annibynnol ar y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, pan fydd ganddynt anghenion caffael cyffredin. Awgrymwyd y gallai cyllidebau arloesi rhanbarthol pwrpasol gael



eu defnyddio i gefnogi caffael arloesol. Gallai atebion a rennir ganiatáu i fwy o adnoddau gael eu defnyddio, a lleihau risgiau.

Gadael yr Undeb Ewropeaidd

Trafodwyd yr effaith a'r cyfleoedd posibl sy'n codi yn sgîl gadael yr Undeb Ewropeaidd gyda'r Pwyllgor. O ystyried bod Cyfarwyddebau'r UE sy'n ymwneud â chaffael wedi'u trosi i gyfraith y DU, mae'n debygol na fydd newid ar unwaith i gyfraith caffael o'r dyddiad y bydd y DU yn gadael yr UE.

Fodd bynnag, awgrymwyd i'r Pwyllgor y byddai'n amserol adolygu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chaffael er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol ar waith pan fydd y DU wedi ymadael â'r UE. Awgrymwyd y dylai'r adolygiad ystyried –

- A yw rheolau cymorth gwladwriaethol yn berthnasol ac, os felly, sut, yn enwedig yng nghyd-destun consesiynau gwasanaeth.
- A yw'r deddfwriaeth yn gallu hwyluso mwy o hyblygrwydd i ganiatáu i awdurdodau lleol hyrwyddo cyflenwyr lleol.

Ar 12 Medi 2017, cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig gennych, sef, Addasu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru, pan gyhoeddodd y byddai'r Gwasanaeth a Gwerth Cymru yn cael eu hail-ffocysu i fanteisio ar unrhyw newidiadau o ran rheolau caffael yn dilyn Brexit'. Dywedodd:

Yn ogystal â hyn, byddwn yn gweithio gyda busnesau i ystyried pob opsiwn posibl o ran datblygu cadwyni cyflenwi lleol ac i lenwi unrhyw fylchau cyflenwi ledled y wlad, fel bod busnesau Cymru mewn lle da i gystadlu a gwneud cais am gontractau'r sector cyhoeddus yma yng Nghymru a thu hwnt. Byddwn hefyd yn edrych ar sut y gallwn sicrhau bod buddsoddiadau mewn seilwaith yn cyd-fynd â'n rhaglenni cyllid datblygu rhanbarthol er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf posibl ac yn hybu twf economaidd a ffyniant cynhwysol ledled Cymru.



Pa ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i sut y gall Brexit effeithio ar gaffael bwyd?
Pa waith sydd wedi'i wneud i ddatblygu cadwyni cyflenwi bwyd lleol neu i gefnogi busnesau bwyd Cymru i wneud cais am gontractau'r sector cyhoeddus yng Nghymru ac ymhellach i ffwrdd?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r llythyr hwn erbyn 2 Chwefror 2018.
Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,



Mike Hedges AC

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig





Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

1 Chwefror 2018

Annwyl Mike,

Ailfeddwl am fwyd yng Nghymru – Proses gaffael y sector cyhoeddus

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr 2017 yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig fel rhan o'i ymchwiliad i ailfeddwl am fwyd yng Nghymru, ac yn benodol y rôl y gall proses y sector cyhoeddus o gaffael bwyd a diod yng Nghymru ei chwarae yn y maes polisi bwyd a diod ehangach.

Gwnaethoch nodi bod tystiolaeth wedi dod i law'r Pwyllgor gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n cynrychioli CLILC); Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru; Hybu Cig Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru. Gwnaeth y Pwyllgor hefyd glywed gan yr Athro Roberta Sonnino, Athro Polisi a Chynllunio Amgylcheddol, Prifysgol Caerdydd.

Mae'r Pwyllgor wedi nodi nifer o faterion yn ymwneud â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (y GCC). Er hwylustod, rwyf wedi nodi'r rhain yn yr atodiad cysylltiedig, ynghyd â'r ymatebion perthnasol iddynt. Mae'r materion hynny lle ceir gorgyffwrdd wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd.

Fel y gŵyr y Pwyllgor, dim ond ers mis Medi 2017 y mae fframwaith bwyd ffres y GCC wedi bod ar waith, a dim ond ers mis Tachwedd 2017 y mae fframwaith cynhyrchion aer-sefydlog wedi'u pecynnu y GCC wedi bod ar waith. Felly, mae'n anochel y bydd rhai o'r atebion yn betrus oherwydd natur gynnar y fframweithiau.

Mae fframweithiau bwyd ffres a chynhyrchion aer-sefydlog wedi'u pecynnu y GCC wedi'u nodi hefyd fel un o sawl ymarfer peilot sy'n cael ei gefnogi gan Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i nodi a rhannu arfer da wrth gaffael yn y sector cyhoeddus er mwyn cefnogi llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Felly, mae'r GCC yn cydweithio'n agos â'r Comisiynydd a chyrrff blaenllaw eraill yn y diwydiant.

Cofion gorau,



Mark Drakeford AM/AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Atodiad 1

Gwariant ar gaffael bwyd yn y sector cyhoeddus

1. *A ddylid cyhoeddi'r wybodaeth hon yn rheolaidd yn eich barn chi?*

Roedd Adroddiad Sector Cyhoeddus Cymru 2013 ar Brynu Bwyd, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn amcangyfrif bod y sector cyhoeddus wedi gwario £74.4 miliwn ar fwyd a diod, a bod yr hyn a brynwyd oddi wrth gwmnïau yng Nghymru, gan gynnwys cynhyrchwyr a dosbarthwyr, yn cyfrif am 63% (£47.2 miliwn).

Roedd Adroddiad Sector Cyhoeddus Cymru 2013 ar Brynu Bwyd wedi amcangyfrif gwariant y sector cyhoeddus ar fwyd a diod yn ogystal â'r gyfran a wariwyd gyda chwmnïau yng Nghymru.

Heddiw, mae gwariant y sector cyhoeddus yng Nghymru ar gaffael yn cael ei gofnodi ar system dadansoddi gwariant, Atamis, a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu y gall gwariant ar amrywiaeth eang o gategorïau, gan gynnwys bwyd, gael ei ddadansoddi a'i asesu.

Gellid cyhoeddi'r data o'r system hon yn rheolaidd. Byddai cylch adrodd dwy flynedd yn fodd i gadw llygad ar newidiadau a nodi patrymau sy'n dod i'r amlwg yn effeithiol.

2. *Beth fyddai manteision ac anfanteision trefnu bod y wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus?*

Byddai trefnu bod y wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus yn helpu i dynnu sylw at y gwariant sylweddol gyda chyflenwyr yng Nghymru ac, o bosibl, yn annog cyflenwyr eraill i ystyried gwneud cynnig am gyfleoedd yn y dyfodol neu i gyflenwi cynhyrchion lleol fel rhan o weithgarwch yn ail haen y gadwyn gyflenwi.

Dim ond yn ôl gwariant gyda chyflenwr, ac nid yn ôl y cynhyrchion a gyflenwyd, y gellir dadansoddi'r data, a gall hyn fod yn anfantais. Dim ond trosolwg lefel uchel o berfformiad y bydd yn gallu ei gynnig, ac ni fydd yn gallu nodi cynnyrch o Gymru sy'n cael ei gyrchu drwy weithgarwch yn yr ail haen neu haen is. Gallai hyn arwain at dynnu casgliadau camarweiniol.

Caffael bwyd ffres, maethlon a gynhyrchir yn lleol

3. *Sut mae fframweithiau caffael bwyd y GCC yn cyd-fynd â mentrau megis Bwyd am Oes?*

Mae amrywiaeth eang o randdeiliaid o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru wedi dylanwadu ar y fframweithiau ac wedi'u llunio a'u datblygu. Mae'r rhanddeiliaid hyn yn cynnwys arbenigwyr polisi bwyd, arbenigwyr maeth, rheolwyr arlwy, cynghorwyr diogelwch bwyd ac arbenigwyr polisi gwastraff, yn ogystal â'r diwydiant bwyd a Chomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Felly, mae'r fframweithiau yn cynnwys amrywiaeth eang o bolisiau a mentrau megis Bwyd am Oes, ac maent wedi cael eu llunio mewn ffordd sy'n cefnogi mentrau o'r fath yn llawn.

4. *Sut mae fframweithiau caffael bwyd y GCC yn cefnogi'r broses o gaffael bwyd iach a gynhyrchir yn lleol?*

Mae caffael bwyd iach a gynhyrchir yn lleol yn un o brif nodau'r fframweithiau, ac mae hyn wedi cael ei ddwyn i sylw'r cyflenwyr drwy ddogfennau'r fframweithiau a'r digwyddiadau ymgysylltu cyn caffael a gynhaliwyd ledled Cymru.

Bydd y GCC yn cydweithio â chyflenwyr a'i gwsmeriaid yn y sector cyhoeddus er mwyn nodi a chyrru mwy o amrywiaeth o gynnyrch lleol pan fo hynny'n bosibl.

Lluniwyd y fframweithiau mewn ffordd sy'n golygu y gellir ychwanegu cynhyrchion newydd atynt a'u hyrwyddo.

5. *Sut mae fframweithiau caffael bwyd y GCC yn hyrwyddo cynaliadwyedd bwyd (e.e. milltiroedd bwyd); pa mor ffres ydyw (e.e. faint o amser y mae'n ei gymryd i gyrraedd y plât o'r maes); a'i darddiad (e.e. statws gwarchoddedig)?*

Fel y nodwyd, mae fframwaith y GCC wedi cael ei lunio mewn ffordd sy'n golygu y gellir ychwanegu cynhyrchion lleol ato a fydd yn lleihau milltiroedd bwyd. Er mwyn sicrhau bod bwyd yn ffres, mae oes silff cylch oes o 75% wedi'i nodi yn y fanyleb ar gyfer cynhyrchion. Cafodd cynhyrchion â statws gwarchoddedig eu cynnwys yn y fframwaith ar y cam tendro, a gellir eu hychwanegu at y fframweithiau hefyd wrth iddynt aeddfedu.

6. *Sut mae fframweithiau caffael bwyd y GCC yn sicrhau bod gwastraff bwyd yn cael ei leihau i'r eithaf?*
7. *A oes gofynion i gofnodi gwastraff bwyd, rhoi gwybod amdano a'i fonitro?*

Fel rhan o'r gwaith peilot ehangach gyda Chomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r GCC wedi cydweithio'n agos â rhaglen lleihau gwastraff WRAP sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chynghorwyr polisi gwastraff yn Llywodraeth Cymru ei hun. Hefyd, mae'r GCC wedi llofnodi Ymrwymiad Courtauld 2025, sef cytundeb gwirfoddol sy'n dod â'r cynhyrchydd a'r defnyddiwr ynghyd i sicrhau bod y broses o gynhyrchu a defnyddio bwyd a diod yn fwy cynaliadwy.

O ganlyniad i hyn, mae'r fframweithiau wedi ymrwymo'n llwyr i leihau gwastraff i'r

eithaf drwy'r gofynion a nodir yn y fanyleb. Bydd mesuriadau yn cwmpasu'r meysydd canlynol ac yn golygu y gellir nodi tueddiadau a gwella perfformiad.

- Allyriadau nwyon tŷ gwydr
- Defnydd o ddŵr
- Gwastraff bwyd a gynhyrchir
- Gwastraff sy'n ddeunydd pecynnu

Cynllun gweithredu bwyd a diod Llywodraeth Cymru

8. *A ydych yn credu y byddai cael polisi bwyd cyffredinol yn cynnig manteision i'r GCC?*

Fel y nodwyd yn fy ateb i gwestiwn 3, mae fframweithiau'r GCC wedi gwneud cryn dipyn yn hyn o beth, a byddwn yn fodlon cyhoeddi'r gwaith a wnaed i sicrhau bod polisiau a mentrau allweddol wedi cael eu cynnwys.

Ar hyn o bryd, mae'r GCC yn canolbwyntio ar roi amrywiaeth o bolisiau a mentrau ar waith, ac nid ydym ar hyn o bryd am droi'r sylw hwnnw at ddatblygu polisi newydd.

9. *A yw'r cynnydd yn erbyn cam gweithredu 30 wedi cael ei asesu?*

Mae cam gweithredu 30 yn disgrifio'r ffordd y dylid datblygu cyfleoedd ym marchnad y sector cyhoeddus ar gyfer y diwydiant bwyd ac, yn benodol, BBaChau a microfusnesau bwyd. Wrth ddatblygu ei fframweithiau, cafodd hyn ei gefnogi gan y GCC drwy'r mesurau a ddisgrifir isod.

- Cynnal 12 o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r farchnad cyn caffael yng Nghymru er mwyn nodi materion yn ymwneud â'r farchnad a helpu busnesau llai i baratoi i wneud cynnig.
- Cynnal gweithdai sut i dendro yn ystod y broses gaffael er mwyn helpu busnesau llai i ddeall y gofynion tendro yn well.
- Gweithredu strwythur parth daearyddol fel rhan o'r broses gaffael a fyddai'n galluogi busnesau llai i wneud cynnig i gyflenwi yn lleol.

Un o fesurau llwyddiant allweddol y camau gweithredu hyn yw'r ffaith bod 73% o'r cyflenwyr a benodwyd i fframwaith bwyd ffres y GCC yn BBaChau yng Nghymru.

10. *A ydych o'r farn bod digon o bwyslais ar broses caffael bwyd y sector cyhoeddus yn 'Tuag at Dwf Cynaliadwy'?*

O ran y pwyslais a roddir ar broses gaffael y sector cyhoeddus yn 'Tuag at Dwf Cynaliadwy', mae'r adroddiad yn nodi bod tua 10% o'r trosiant ymhlith y 300 o gyflenwyr a gwblhaodd yr arolwg yn ymwneud â chyflenwi'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Cynlluniwyd i'r pwyslais ar broses caffael bwyd y sector cyhoeddus yn 'Tuag at Dwf Cynaliadwy' adlewyrchu'r matrices hwnnw.

11. *Beth fyddai manteision neu anfanteision cael strategaeth bwyd gyffredinol i broses caffael bwyd y sector cyhoeddus?*

Rwyf wedi ymdrin â hyn yn fy ateb i gwestiwn 8.

Fframweithiau bwyd y GCC

12. *Fframwaith 1: Mae Cynhyrchion Bwyd a Diod Ffres (NPS-Food-0068-16) wedi bod ar waith ers mis Awst 2017. Faint o sefydliadau sydd wedi nodi y byddant yn defnyddio'r fframwaith hwn?*

Hyd yma, mae tua 25 o sefydliadau yn defnyddio neu wedi nodi y byddant yn defnyddio'r fframwaith yn rhannol neu'n llawn.

13. *Faint o sefydliadau sy'n aelodau sydd wedi optio allan?*

Mae dau sefydliad wedi optio allan yn ffurfiol, ond wedi cadw'r hawl i ymuno â'r fframweithiau yn nes ymlaen.

14. *Beth yw eich barn ar y pryderon a fynegwyd gan awdurdodau lleol ynghylch y defnydd o'r GCC ar gyfer caffael bwyd? Pa gamau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gan awdurdodau lleol ynghylch y fframwaith?*

Cafodd y fframweithiau eu llunio gan grŵp o randdeiliaid o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, a oedd yn cynnwys arbenigwyr arlwyo a chaffael awdurdodau lleol yn bennaf. Hefyd, roedd y fframwaith yn destun adolygiad gan gymheiriaid, a hynny gan Grŵp Cyflenwi'r GCC sy'n gyfrifol am lywodraethu gweithredol ac sy'n cynnwys pedwar uwch arweinydd caffael o awdurdodau lleol. Mynegodd Grŵp Cyflenwi'r GCC bryderon ynghylch y parthau daearyddol a gynigiwyd a'r ffaith nad oedd parthau cyflenwi awdurdodau lleol penodol. Aethpwyd i'r afael â'r pryderon hyn a chafodd y model ei newid i gynnwys cyflenwi lleol.

15. *Beth yw eich amcanestyniadau ar gyfer gwariant o dan Fframwaith 1: Cynhyrchion Bwyd a Diod Ffres ar gyfer y ddwy flynedd nesaf?*

Yn 2018/19, amcangyfrifir mai £9 miliwn fydd y gwariant fel rhan o'r fframwaith. Bydd amcanestyniadau ar gyfer 2019/20 ar gael pan ddaw data yn gliriach.

16. *Sut mae'r amcanestyniadau hyn wedi ystyried y gwariant yn ystod 2016/17 o dan y fframweithiau bwyd presennol?*

Mae'r amcanestyniad yn seiliedig ar nodi'r sefydliadau hynny a fydd yn symud i gytundebau'r GCC pan fydd eu cytundebau presennol wedi dod i ben.

17. *A ydych yn credu bod Fframwaith 1: Cynhyrchion Bwyd a Diod Ffres yn cynnig digon o hyblygrwydd i sefydliadau gaffael bwyd iach a gynhyrchir yn lleol?*

Fel y nodais yn fy ateb i gwestiwn 4, lluniwyd y fframwaith mewn ffordd sy'n golygu y gellir ychwanegu cynhyrchion newydd, iach a gynhyrchir yn lleol ato a'u hyrwyddo.

Brexit

18. *Pa ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i'r ffordd y gall Brexit effeithio ar gaffael bwyd?*

Fel y gwnaethoch ei nodi, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar 12 Medi 2017, sef Addasu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru. Bydd rhan o'r adolygiad hwn yn galluogi Cymru i fanteisio ar unrhyw newidiadau i reolau caffael. Mae'r adolygiad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, a byddaf yn cyhoeddi'r canfyddiadau cychwynnol maes o law.

Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi dogfen sy'n ystyried effaith bosibl Brexit ar yr economi wledig yn fuan.

19. *Pa waith a wnaed i ddatblygu cadwyni cyflenwi bwyd lleol neu gefnogi busnesau bwyd yng Nghymru i wneud cynnig am gontractau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt?*

Fel y disgrifiais yn yr ateb i gwestiwn 9, mae'r GCC wedi gwneud gwaith sylweddol yn y maes hwn, a'r arwydd cynnar cadarnhaol yw bod 80% o'r darparwyr sydd ar y fframwaith bwyd ffres wedi'u lleoli yng Nghymru a bod 73% ohonynt yn BBaChau yng Nghymru.

Yn ogystal, mae is-adran bwyd Llywodraeth Cymru yn dal i gefnogi diwydiant bwyd Cymru yn sylweddol drwy roi cymorth yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi a'i gyflwyno i farchnadoedd ehangach. Mae sawl pecyn cymorth busnes wedi buddsoddi mewn arloesi, marchnata a phobl. Mae gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd swm cymeradwy o bron £30 miliwn i'w fuddsoddi mewn 34 o fusnesau sy'n tyfu. O ran arloesi, mae Prosiect Helix yn annog diwydiant o arloesi ac entrepreneuriaeth ac mae cymorth ymarferol, wedi'i gefnogi gan fuddsoddiad o £21 miliwn, yn cyflenwi cynhyrchion a phrosesau newydd er mwyn ateb galw'r farchnad a mwyhau gwerth. Mae'r rhaglen clwstwr busnes yn cynnwys chwe chlwstwr allweddol a grwpiau â diddordeb arbennig lle mae mwy na 400 o fusnesau yn ymwneud â meysydd busnes pwysig o'r cynllun gweithredu bwyd a diod. Fel grwpiau â diddordeb cyffredin, mae clystyrau'n ysgogi twf, yn cynyddu nifer y cyfleoedd newydd, yn ychwanegu gwerth ac yn creu cadwyni cyflenwi cryfach.